

Canolfan: Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn	
Trosolwg:	<p>Canolfan Breswyl Gweithgareddau Awyr Agored a Chwaraeon, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad at Lyn Tegid gyda amrediad lawn o Weithgareddau awyr agored a dŵr • Yr holl offer sydd ei angen a hyfforddwyr cymwys dwyieithog. • Offer, cyfleusterau a hyfforddwyr dringo, mynydda a cherdded. • Neuadd chwaraeon • Pwll nofio • Cae chwarae
Teithio:	
Ffordd:	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ganolfan wedi ei leoli 3milltir i'r Gorllewin o'r Bala, ar yr A494 (LL23 7ST) • Digon o le i barcio ar y safle. • Mae 50 safle parcio, a 3 wedi'u neilltuo fel safleoedd hygrych • Parcio ar gyfer 3 bws mawr a 3 bws mini.
Bws:	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth bws rheolaidd (Wrecsam-Abermaw) sy'n stopio wrth y mynediad
Trên:	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gorsafodd trên agosaf yn Wrecsam, Rhiwabon a'r Waen – tua 30 milltir o'r ganolfan
Gwybodaeth ychwanegol:	<p>Ffôn: 01678 541000 E-bost: glan-llyn@urdd.org</p> <p>Mae Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd wedi'i drefnu ar gyfer staff ar ôl codi'r cyfyngiadau presennol.</p>
Cyfleusterau:	<ul style="list-style-type: none"> - Pwll Nofio 15m (gyda 'hoist') - Mynediad at Lyn Tegid (gyda 'hoist') - Cwrs Rhaffau Uchel/Isel / Wal Ddringo / Cwrs cyfeiriannu - Neuadd Ymgynnull - Darlithfa - 8 ystafell gyfarfod - Neuadd Chwaraeon - Canolfan Bowlio 10 - Llety <i>en suite</i> ar gyfer 245 person - Ardal fwyta i 150 person - Gwasanaeth Gweithgareddau Awyr Agored ymhob rhan o Gymru - Bysiau Mini - Mynediad at llwybrau cerdded a mynyddoedd lleol

Prif fynedfa a derbynfa:

Prif
fynedfa:

Mae'r prif fynedfa ym mlaen yr adeilad.

- Mynediad lawr allt i'r fynedfa yma
- Mynedfa ar agor yn ystod oriau swyddfa
- Cilfach wrth y fynedfa yma sydd yn gwarchod rhag y tywydd
- Drysau efo system 'keypad' tu allan i oriau swyddfa
- Drysau dwbl
- Mae gwefus fach ar drothwy'r fynedfa, gydag uchder o 2cm neu'n is
- Mae yna staff ar alwad 24 awr o'r dydd

Derbynfa:

- Mae'r Dderbynfa i'r chwith wrth i chi fynd i mewn
- Mae'r dderbynfa i'w gweld yn glir o'r fynedfa
- Mae mynediad di-ris i'r dderbynfa hon
- Mae rhan isel o'r cownter (76cm neu'n is) ar gael
- Mae'r ddesg wedi'i staffio
- Mae'r swyddfa'r dderbynfa wedi'i staffio rhwng 8:30-23:00, a bydd system ar alwad yn gweithredu dros nos.

Mynd o
gwmpas:

- Mae mynediad di-ris trwy'r adeilad
- Mae arwyddion clir trwy'r Gwersyll
- Mae drysau yn y coridorau sydd ddim yn agor yn awtomatig

Toiledau / Ystafelloedd newid:

Toiledau a chyfleusterau Newid:

Mae 13 bloc toiled ar gael ar y safle:

Gwryw: 5

Benyw: 5

Hygyrch: 3

Mae gan bob ystafell:

- Sychwr dwylo
- Basn ymolchi
- Dosbarthwr sebon
- Unedau gwaredu glanweithdra

Mae toiledau hygyrch wedi'u gosod â:

- Rheiliau cydio wedi'u gosod ar y wal
- Silff
- Drych
- Sychwr dwylo
- Basn ymolchi
- Dosbarthwr sebon
- Cordiau tynnu argyfwng
- Unedau gwaredu glanweithdra
- Gwely newid

Cyfleusterau newid;

Ystafelloedd: 4

Cuddygl: 0

Cawodydd: 8

- Cyfleusterau cawodydd hygyrch ar gael.
- Mae'r cawodydd hygyrch wedi'u lleoli yn y cawodydd safonol
- Mae'r cyfleusterau sydd yn y cawodydd hygyrch yn cynnwys pen cawod addasadwy.
- Mae mynediad lefel i'r gwasanaethau o'r cyfleusterau cawodydd hygyrch
- 'Hoist'

Ffreutur

- Mae'r ffreutur wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod ac mae mynediad gwastad trwy ddrysau dwbl
- Mae'r ystafell yn wastad drwyddi draw gyda lloriau gwrthlithro
- Gall gofod rhwng dodrefn fod yn gyfyngedig yn yr ystafell hon ond gellir symud y cadeiriau a'r byrddau.
- Mae seddi ar gael i 150 o bobl
- Golau naturiol ardderchog yn ystod y dydd, a golau nenfwd yn y nos.

Llety:	
Ystafelloedd gwely (gan gynnwys ystafelloedd ymolchi)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gennym 55 ystafell • Dadansoddiad o'r ystafell: (7x8 gwely; 14x6 gwely; 1x5 gwely; 16x4 gwely; 2x3 gwely; 15x2 gwely) • Mae'r ystafelloedd yn rhai en-suite • Mae gan rhan fwyaf o'r ystafelloedd gwely welyau bync ac mae gan 19 ohonynt welyau sengl • Gellir darparu dillad gwely os nad oes bagiau cysgu ar gael. • Mae lloriau gwrthlithro ymhob ystafell wely ac ystafelloedd ymolchi • Mae gan gawodydd safonol gam i fyny i fynd i mewn
Ystafelloedd gwely hygyrch penodol (gan gynnwys ystafelloedd ymolchi) os yw'n berthnasol	<ul style="list-style-type: none"> • 3 ystafell wely hygyrch sydd â mynediad eang ac sydd â digon o le i droi • Mae gan yr ystafell ymolchi en-suite; Rheiliau cydio, Sedd gawod, Mynediad eang, Troi gofod, Cawod hygyrch